


## 2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A230741	17-10-2023	Daniel ac Elin Morris ac Adams-Lewis	Erection of TAN 6 dwelling and associated shed and yard	Land Adj. To Penrhiwdulais Brongest, Beulah, Newcastle Emlyn, SA38 9ET	Refuse
2	A240306	29-04-2024	D C Evans	Residential Development and associated works	Cwrt Dulas, Lampeter, Ceredigion, SA48 7HY	Approve Subject to Conditions (and s106)
3	A240339	09-05-2024	Mr H Evans	Annedd amaethyddol a gwaith cyselltiedig/Agricultural dwelling and associated work	Neuadd Fawr, Talybont, Ceredigion, SY24 5HN	Refuse

## 2.1. A230741



<b>Rhif y Cais</b>	A230741
<b>Derbyniwyd</b>	17-10-2023
<b>Y Bwriad</b>	Codi annedd TAN 6, sied a iard gysylltiedig
<b>Lleoliad Safle</b>	Tir gyferbyn Penrhiwdulais, Brongest, Beulah, Castellnewydd Emlyn, SA38 9ET
<b>Math o Gais</b>	Cynllunio llawn
<b>Ymgeisydd</b>	Daniel ac Elin Morris ac Adams-Lewis, Gobaith, Brongest, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9ER
<b>Asiant</b>	Mrs Gwennan Jenkins (JMS Planning and Development), Hafan Y Coed, Maeshyfyrd, Lampeter, SA48 8AN

## Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at barsel o dir amaethyddol sydd wedi'i leoli mewn lleoliad cefn gwlad agored tua 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o Frongest - Setliad Cyswllt at ddibenion y CDLI. Mae'r safle'n wynebu heol sirol C1063 ac mae'n safle hynod weladwy o fewn y dirwedd gyfagos gyda golygfeydd pell i bob cyfeiriad.

Mae annedd agosaf Penrhiwdulais yn eistedd ~130m i'r gogledd o'r safle, gyda Fferm Aberdulais y tu nôl iddi ~275m o safle'r cais. I'r gorllewin mae adeilad amaethyddol ~200m o'r safle, gan arwain at Fferm Pantyrolyn.

Mae'r safle yn gorwedd o fewn talgylch ardal gadwraeth arbennig Afon Teifi.

Dim ond un cais cynllunio hanesyddol sydd i'r safle:

- **A190429:** Cynllunio Llawn -- Codi bloc stablau – Cymeradwy gydag amodau ar 05-09-2019

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer codi annedd, sied a iard fenter wledig mewn perthynas â busnes tad yr ymgeisydd, 'Huw Morris Plant Hire' sefydlwyd yn 2004 (y mae'r ymgeisydd yn bartner iddo). Maent yn gweithredu ar hyn o bryd o annedd fenter wledig bresennol o'r enw Gobaith, a leolir ~ 2.5 cilometr i'r de-ddwyrain o safle'r cais - nodir hefyd taw dyma breswylfa bresennol yr ymgeisydd. Mae safle'r cais o dan berchnogaeth yr ymgeiswyr.

Cymeradwywyd annedd menter wledig Gobaith yn 2013 gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn groes i argymhelliad swyddogion (Cyf: A120621) – roedd yr argymhelliad yn nodi fod y cais yn groes i egwyddorion TAN 6 a pholisïau'r Cynllun Datblygu Unedol perthnasol a oedd mewn grym ar y pryd. Roedd Adroddiad y Swyddog yn dod i'r casgliad: "... *nid yw depo contractwr yn cwrdd â'r prawf anghenion lleoliadol, nid yw'n weithgaredd ar y tir, ac nid yw wedi'i leoli'n briodol yn y lleoliad gwledig hwn*".

Mae'r fenter wledig arfaethedig yn yr achos hwn yn gofyn am fyngalo gyda 2 ystafell wely, lolfa, cegin / ystafell fwyta / byw, cyfleustodau, a swyddfa i'r cwmni gydag ôl troed sy'n cyfateb i 209medr sgwâr. Byddai'r annedd yn cael ei orchuddio gyda chymysgedd o rendrad wedi'i baentio, gwaith carreg nodweddol, to llechi naturiol a phaneli ffotofoltäig (PV), gyda drysau, ffenestri, ffasgia a soffitau alwminiwm neu uPVC sy'n gweddu. Byddai'r annedd yn elwa o ardal amwynder, sef lawnt i'r cefn wedi'i ffinio gan gyfuniad o glawdd gwrych a ffensys rheilen.

Byddai'r sied arfaethedig yn mesur ôl troed 12m x 18.5m (~ 222medr sgwâr), 3.8m i'r bondo a 5.5m i'r grib, wedi'i hadeiladu o baneli concrit, cynfasau proffil blwch, a tho sment ffibr.

Byddai'r datblygiad yn ei gwneud yn ofynnol i drawsleoli'r gwrychoedd presennol i flaen y safle er mwyn cyflawni'r gwelededd gofynnol angenrheidiol.

Byddai draenio gwastraff budr yn cael ei ollwng i safle trin dŵr gwastraff budr arfaethedig ac wedi hynny i domen ddraenio sydd wedi'i lleoli o fewn ffin y berchnogaeth. Mae Adroddiad Draenio yn cyd-fynd â'r cais hwn.

## POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisïau cenedlaethol a lleol canlynol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN12 Dyluniad (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)
- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygiad mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirlunio
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Lleol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM19 Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol
- DM20 Diogelu Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg CCA 2015
- Taflen Gymorth: Y Gymuned a'r Gymraeg CCA 2015
- Safonau Parcio CCC CCA 2015
- Amgylchedd Adeiledig a Dylunio SPG 2015
- Cadwraeth Natur CCA 2015
- Tai Fforddiadwy CCA 2014

## **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

### **DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau gan ystyried effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gallu yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### **DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Gwaredu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion yn wahanol rai pobl eraill;
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ynghylch y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

### YMATEBION YMGYNGHORI

#### Cyngor Cymuned Beulah:

*"Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais yma ar gyfer pâr ifanc sydd am ymgartrefi yn agos i'w gwaith a'i hardal. Maent yn cydymffurfio gyda pholisi'r Cyngor Sir a pholisi'r Senedd - sef*

- *Hybu'r economi, cefnogi busnesau a hwyluso cyflogaeth*
- *Diogelu'r iaith yn y presennol ac i'r dyfodol.*

*Er bod hyn y tu allan i'r Cynllun Datblygu, mae gan Gynghorwyr yr hawl i ganiatâi cynllunio os ydy hyn yn cefnogi busnesau lleol gwledig."*

#### Priffyrdd:

Dim gwrthwynebiad, yn seiliedig ar amodau

#### Draenio Tir:

Dim gwrthwynebiad, yn seiliedig ar amodau. Mae angen cymeradwyaeth System Ddraenio Gynaliadwy (SDCau).

#### Ecoleg:

Dim gwrthwynebiad, yn seiliedig ar amodau.

#### Cyfoeth Naturiol Cymru:

Cytuno â chasgliadau Asesiad Priodol yr ACLI (AP) nad yw datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar uniondeb yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

#### Dŵr Cymru:

Dim ymateb

***Derbyniwyd pum llythyr o gefnogaeth mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.***

## CASGLIAD

Mae adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi:

"Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaeth materion yn cyfleu fel arall".

### Egwyddor Datblygu

Yn unol â pholisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol, mae datblygiad preswyl yn cael eu cyfeirio at aneddiadau cynaliadwy a dylid eu cynnwys o fewn ffiniau aneddiadau presennol. Yn unol â strategaeth y CDLI, dylai 51% o ddatblygiadau tai newydd ar draws y Sir ddod yn eu blaen yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig a 25% mewn aneddiadau a lleoliadau eraill (gan gynnwys aneddiadau cyswllt).

Mae'r safle hwn y tu hwnt i unrhyw anheddiad neu grŵp o annedd diffiniedig ac felly ystyrir ei fod, at ddibenion polisi cynllunio, wedi'i leoli o fewn 'lleoliad arall'. Mae Polisi S04 y CDLI yn ceisio rheoli'r cynnydd mewn datblygiad tai ychwanegol o fewn lleoliad arall yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cyfeirio datblygiadau i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Mae Maen Prawf 2a o S04 yn cael ei ailadrodd isod.

*2. Yn achos datblygu tai:*

a. Caniateir datblygu tai cyffredinol yn yr 'Aneddiadau Cyswllt' yn unig. Mae'r holl 'Leoliadau Eraill' yn amhriodol ar gyfer datblygu tai oni ellir cyfiawnhau hynny oherwydd y byddai'n cyflawni angen clir fel a ganlyn:

- i. angen heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy yn yr ardal leol ac mae'n unol â Pholisi S05; neu
- ii. angen am annedd ar gyfer menter wledig yn unol â Pholisi TAN 6.

Mae'r cais a'r gwerthusiad TAN 6 atodol yn ceisio cyfiawnhau'r datblygiad fel annedd newydd ar fenter wledig sydd wedi'i sefydlu lle mae angen swyddogaethol am weithiwr llawn amser, a bod yr achos busnes yn dangos bod y gyflogaeth yn debygol o barhau'n gynaliadwy yn ariannol. Dylid pwysleisio'n glir ar hyn o bryd bod y safle datblygu arfaethedig wedi'i leoli ~ 2.5 cilomedr o'r safle presennol, ac felly ni ellir dadlau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn mynd i'r afael ag unrhyw angen swyddogaethol ar y safle presennol. P'un ai fod angen ar y safle ei angen neu beidio, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn mynd i'r afael â'r angen hwn.

Yn ychwanegol, nid yw dehongliad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o weithrediadau'r busnes wedi newid o un cais gwreiddiol TAN 6 (A120621), gan nad yw'n fenter wledig gymwys at ddibenion TAN 6. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan yr asiant wedi datgan y byddai rheolaeth yr ymgeisydd o'r busnes oddi wrth ei dad yn ehangu gweithrediadau i gynnwys contractio amaethyddol ac yn cadarnhau nad oedd hyn wedi bod yn rhan o weithrediadau'r busnes o'r blaen.

Er mwyn cyflawnrwydd fodd bynnag, bydd meini prawf perthnasol TAN 6 yn cael sylw yn eu tro isod gan gyfeirio at yr arfarniad menter wledig (AMW) sy'n cyd-fynd â'r cais:

Mae TAN 6, paragraff 4.4.1 yn amlinellu enghreifftiau o'r adeg y mae polisi cenedlaethol o'r farn ei bod yn briodol rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer annedd menter wledig newydd. Bydd annedd newydd ar fenter wledig sefydledig ond yn cael ei chefnogi ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- a. bod angen swyddogaethol presennol clir wedi'i sefydlu.
- b. bod yr angen yn ymwneud â gweithiwr llawn amser, nid â gofyniad rhan-amser.
- c. bod y fenter dan sylw wedi'i sefydlu ers o leiaf tair blynedd, wedi gwneud elw yn ystod un ohonynt o leiaf a bod y fenter a'r busnes sydd â'r angen am y swydd yn ariannol gadarn ar hyn o bryd a bod yna ragolwg clir y byddant yn parhau felly;
- d. na ellid diwallu'r angen swyddogaethol gan annedd arall na thrwy drosi adeilad addas sydd eisoes ar y ddaliad tir lle mae'r fenter, neu unrhyw lety arall sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal leol sy'n addas ac ar gael i'w feddiannu gan y gweithiwr dan sylw, a
- e. bod gofynion cynllunio arferol eraill, er enghraifft, lleoliad a mynediad, wedi'u bodloni.

## **Prawf swyddogaethol**

O ran "gofyniad swyddogaethol", mae TAN 6 yn nodi ym mharagraff 4.8 bod:

*"Mae angen prawf swyddogaethol i ddarganfod a yw'n hanfodol i un neu fwy o weithwyr fod wrth law bron bob amser er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol. Dylai ymwneud â sefyllfaoedd annisgwyl allai godi, sy'n golygu bod angen gweithwyr wrth law i ddelio â hwy y tu hwnt i oriau gwaith arferol y fenter benodol. Gallai sefyllfaoedd o'r fath godi, er enghraifft, os byddai angen gweithwyr wrth law ddydd a nos i ddelio ag achos brys fyddai'n bygwth hyfywedd a pharhad y fenter pe na roddid sylw iddo ar unwaith. Lle bo annedd/anheddau eisoes ar y fenter, rhaid dangos ei bod yn hanfodol cael gweithwyr ychwanegol yn byw ar y safle er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol".*

Mae Arweiniad Ymarferol Anheddau Mentrau Gwledig TAN 6 yn cadarnhau: "Mae angen swyddogaethol hanfodol yn ymwneud â gweithgarwch rheoli penodol neu gyfuniad o weithgareddau sy'n golygu bod angen i weithiwr fod wrth law y rhan fwyaf o'r amser er mwyn peidio â gwneud niwed i weithrediad priodol menter bresennol a lle na ellir cyflawni hyn mewn unrhyw ffordd ymarferol arall megis goruchwyllo electronig".

Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud "Pennir yr angen oherwydd cymeriad a gofynion rheoli'r fenter, ac nid oherwydd dewis nac amgylchiadau personol unrhyw unigolyn/unigolion dan sylw".

Mae'r Arfarniad Menter Wledig yn nodi fod y busnes yn "seiliedig ar weithgareddau amaethyddol a thir sy'n cynnwys ffensio, creu fframiau ar gyfer adeiladu, adeiladu siediau, llogi peiriannau a gyrru peiriannau... Mae'r cwmni hefyd yn gwneud gwaith draenio masnachol, gosod gweithfeydd trin carthffosiaeth, gwaith tir ar feysydd carafanau lleol, tai gwyliau a gwestai a busnesau masnachol... Maen nhw hefyd yn gosod arenâu ceffylau a thrwy gydol tymor yr haf maen nhw'n gwneud gwaith contractio bêlio a chynaeafu ar ffermydd lleol a mân-daliadau/tyddynod".

Nodir bod y busnes yn gwneud gwaith ledled Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

Darparwyd detholiad o luniau i ddangos natur y busnes - sy'n dangos amrywiaeth o weithgareddau masnachol, domestig ac amaethyddol. Dywedwyd bod contractio amaethyddol yn ffurfio rhan "sylfaenol" o'r busnes yn ystod tymor yr haf mewn cysylltiad â'r busnes llogi peiriannau a gyrru peiriannau --- hyn yn wahanol i ymrwymadau'r busnes yn hanesyddol a oedd yn canolbwyntio ar yr olaf yn unig.

Ym marn yr ACLI, er y gall contractio amaethyddol bellach fod yn rhan o'r busnes -- gyda bwriad datganedig yr ymgeisydd i barhau yn hyn o beth -- mae'n amlwg mai gwaith masnachol a domestig sydd wedi cynnwys y mwyafrif helaeth o weithrediadau'r busnes ers ei sefydliad yn 2004. Gellir cyfeirio hefyd at dudalen Facebook y busnes sy'n dangos fod y mwyafrif helaeth o'r gwaith a wnaed trwy gydol 2023 yn fasnachol (gwestai / meysydd carafanau / ceffylau) a domestig.

Nid yw asesiad yr ACLI wedi newid o'r hyn a wnaed yn 2013 gan nad yw'r busnes yn cynrychioli menter wledig gymwys at ddiibenion TAN 6 gan nad yw'r gwaith yn bennaf amaethyddol. Nodir y byddai'r sied a'r iard arfaethedig yn cael eu defnyddio i storio, cynnal a thrwsio peiriannau ac ar gyfer weldio. Mae rhestr o beiriannau a cherbydau sy'n eiddo i'r busnes yn cyd-fynd â'r cais - gan gynnwys peiriannau cloddio a dympio, tractorau, faniau / lorïau, a threlars.

Nodir bod yn ofynnol i'r busnes ailsefydlu yn rhywle arall gan fod tad yr ymgeisydd yn bwriadu camu'n ôl o'r busnes ac nid oes cyfle i ehangu ar y safle presennol oherwydd bod ceffylau mam yr ymgeisydd wedi'u stablu yn Gobaith. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn nodi bod tri o'i cheffylau'n cael eu cadw'n barhaol ar y safle gyda chyfanswm o saith stabl ar gael, ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o lifrai. Cyfanswm y tir a neilltuwyd ar gyfer padogau ceffylau a phori yw 4.07 erw tra bod Huw Morris Plant Hire yn cynrychioli 0.55 erw.

Nodir bod yr ymgeiswyr wedi chwilio am annedd addas dros nifer o flynyddoedd gyda sied / lle ar gyfer sied a iard - fodd bynnag nid oes yr un ohonynt wedi bod yn hyfyw. Mae rhestr o 10 eiddo a ystyriwyd tua Mai '23 yn cyd-fynd â'r cais ond cawsant eu diystyru am resymau yn ymwneud â chost, lleoliad, gofod iard, a/neu sŵn. Nid oes chwiliad safle wedi'i ddarparu mewn perthynas ag unrhyw unedau diwydiannol neu fasnachol yn yr ardal leol a allai ymdopi yn yr un modd ag ehangu'r busnes.

I grynhoi, fel y manylwyd yn flaenorol, mae safle'r cais yn gorwedd ~ 2.5 cilometr o safle presennol y busnes, ac fe geisir annedd menter wledig ychwanegol arno. Fodd bynnag, mae'r pellter arfaethedig hwn o'r safle presennol yn dangos yn glir na fu angen swyddogaethol i'r fenter gael ei lleoli yn Gobaith yn y lle cyntaf, ac felly ni all fod angen swyddogaethol i'r fenter ddarparu annedd ychwanegol i ffwrdd o'r safle sydd wedi'i sefydlu.

Yn ychwanegol, tra bod y defnydd ceffylau presennol yn Gobaith yn cael ei gydnabod, nid yw hyn yn atal newidiadau i'r trefniant hwn i hwyluso ehangu'r safle busnes presennol lle mae digon o dir dan berchnogaeth --- ac nid yw ychwaith yn cyfiawnhau sefydlu safle eithrio ychwanegol ~2.5km i ffwrdd. Dylid nodi hefyd fod yr iard a'r sied arfaethedig (~525msg) dipyn yn llai na'r iard a'r siediau presennol (~1900sq.m) ac felly'n amlwg na fyddai'n hwyluso ehangu'r busnes drwy ailsefydlu yn rhywle arall, ond yn hytrach dim ond gweithredu fel ail safle ar y cyd â'r un presennol.

Mae'r rhagdybiaeth o blaid ehangu yn Gobaith yn pwysu'n drwm yn erbyn y datblygiad arfaethedig yn yr achos hwn.

I grynhoi, mae'r Prawf Swyddogaethol yn methu.

### **Prawf Amser**

Mewn perthynas â'r "Prawf Amser", mae TAN6 yn nodi ym mharagraff 4.9:

*"Os canfyddir gofyniad swyddogaethol, bydd rhaid ystyried wedyn faint o weithwyr y mae eu hangen i'w ddiwallu. Bydd graddfa a natur y fenter yn berthnasol i hyn. Lle nad oes annedd yn gysylltiedig â'r fenter wledig ar hyn o bryd, rhaid i'r gweithiwr y mae angen swyddogaethol iddo gael llety newydd fod yn weithiwr llawn amser. Ac eithrio ail anheddau ar ffermydd sefydledig, ni ddylai ymwneud â gofyniad rhan-amser, na gofyniad nad yw'n ymwneud â'r fenter." Os ail annedd (neu annedd ychwanegol) yw hwn, rhaid i'r holl anheddau presennol hefyd fod wedi'u meddiannu gan weithwyr llawn amser y mae'n hanfodol eu bod hwythau hefyd yn byw ar y safle am resymau swyddogaethol, neu gan weithwyr a'u dibynyddion a gyflogwyd ddiwethaf ar fenter wledig".*

Mae'r Arfarniad Menter Wledig a gyflwynwyd yn nodi:

*"Mae'r busnes yn cyflogi 2 weithiwr llawn amser, felly yn seiliedig ar y fenter fel y mae heddiw, mae'n cwrdd â'r Prawf Amser. Wrth symud ymlaen, os rhoddir caniatâd, bydd yn galluogi'r busnes i gael ei reoli o'r safle arfaethedig ac yn caniatáu i Daniel gyflogi pobl ychwanegol, wrth i'w dad gamu yn ôl ac ymddeol, gan ddarparu cyflogaeth yn yr ardal leol a gobeithio y bydd Elin yn dod yn bartner yn y busnes hefyd i reoli'r elfen weinyddu gyfer y busnes."*

Er nad oes dadl ynghylch y wybodaeth sy'n ymwneud â'r gweithlu presennol / arfaethedig, nid oes gofyniad swyddogaethol wedi'i sefydlu ac felly mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn nad yw'r gweithwyr presennol yn cymryd rhan mewn menter wledig gymhwysol. Felly ni brofwyd pam fod rhaid i weithiwr llawn amser fod yn bresennol ar y safle arfaethedig drwy'r amser, wedi'i leoli 2.5km o'r safle busnes presennol.

I grynhoi, mae'r prawf amser yn methu.

### **Prawf Ariannol**

O ran y Prawf Ariannol mae TAN6 yn nodi ym mharagraff 4.10:

*"Dylai'r fenter wledig a'r gweithgaredd dan sylw fod yn gadarn yn ariannol gyda rhagolygon da y bydd yn parhau'n economaidd gynaliadwy am gyfnod rhesymol o amser, sef am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf fel arfer."*

*"Bydd angen tystiolaeth o berfformiad economaidd gwirioneddol neu bosibl. Er mwyn asesu cynaliadwyedd economaidd, bydd angen dangos ei bod yn rhesymol bosibl i'r busnes roi elw marchnad i'w holl weithredwr am swm y mewnbwn rheoli a gwaith llaw, gan gynnwys y gwaith y ceisir yr annedd menter wledig ar ei gyfer, am o leiaf bum mlynedd o'r amser y rhagwelir y bydd y datblygiad arfaethedig wedi ei gwblhau. Dylai hyn gael ei asesu ar sail beth sy'n incwm realistig ar gyfer sgiliau'r gweithredydd."*

Mae TAN 6 yn mynd ymlaen i ddweud:

*"Bydd angen prawf ariannol hefyd i asesu maint yr annedd y gall y fenter fforddio ei adeiladu a'i gynnal. Ni ddylid caniatáu anheddau sy'n anarferol o fawr yng nghyswllt anghenion y fenter, nac yn anarferol o ddrud i'w hadeiladu mewn perthynas â'r incwm y gall ei gynnal yn y tymor hir. Gofynion y fenter yn hytrach na'r perchennog neu'r meddiannydd sy'n berthnasol i bennu adeilad o ban faint sy'n briodol"*

Mae'r cyfrifon a ddarperir i'r ACLI yn dangos bod y fenter yn gwneud elw net cymedrol; fodd bynnag, derbynir bod yr elw hwn wedi'i gyflawni ar ôl i gyflogau yr ymgeisydd gael eu talu. Mae'r Arfarniad Menter Wledig a gyflwynwyd hefyd yn nodi y dylid edrych ar y cyfrifon hyn yng nghyd-destun buddsoddiad cyfalaf sylweddol dros yr amser hwn er mwyn tyfu asedau, ac felly mae'r elw wedi'i gyfyngu. Mae rhagolygon ar gyfer 2024 wedi'i ddarparu i ddangos blwyddyn ychwanegol o elw.

Ystyrir bod y tyniadau a gymerwyd yn cynrychioli elw marchnad deg ar fewnbynau llafur yr ymgeisydd a bod y fenter yn ariannol gadarn.

O ran maint yr annedd arfaethedig, mae'r byngalo 2 ystafell wely yn darparu ~ 209medr sgwâr a dywedir ei fod yr... *o faint cymedrol ac ystyrir ei fod yn gymesur â gallu'r fenter i'w hariannu a'i chynnal heb ragfarn i hyfywedd parhaus y fenter.*" Nodir y byddai'r ymgeisydd yn gallu ymgymryd â'r gwaith tir ac adeiladu'r sied ei hun i arbed ar wariant cyffredinol o ran llafur.

Mae ffigurau sy'n cynrychioli costau adeiladu ac ad-daliadau misol parhaus sy'n ceisio cyfiawnhau fforddiadwyedd yr adeilad wedi'u darparu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, mae'r taliadau morgais misol parhaus a nodwyd yn matsio'n agos gyda hyn mae'r ymgeisydd yn tynnu o'r busnes. O'r herwydd, mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bryderon ynghylch fforddiadwyedd y datblygiad arfaethedig yn erbyn proffidioldeb y fenter -- ac mae TAN 6 yn glir mai gallu'r fenter i ariannu'r datblygiad sy'n berthnasol, p'un a all gwaith gael ei wneud gan yr ymgeisydd neu gael ei ariannu gan arbedion. Cydnabyddir y byddai'r cyd-ymgeisydd yn darparu ffynhonnell incwm, ond ar hyn o bryd nid yw hyn yn deillio o'r fenter ei hun ac felly ni ddylid dibynnu arno i ategu'r hyn a gynhyrchir gan y fenter.

Felly, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod maint yr annedd yn gymesur â gallu'r fenter i ariannu a chynnal y datblygiad heb ragfarnu hyfywedd y fenter.

Mae paragraff 5.26 o'r Arfarniad Menter Wledig yn nodi:

*"Felly mae'n rhesymol caniatáu annedd nad yw'n 'ormodol fawr' ac y gellir ei gefnogi gan gyllid y busnes. Gallai pobl sy'n bodloni'r meini prawf tai fforddiadwy uchod barhau i fyw yn yr annedd er bod ei faint yn fwy na safon uchaf y Gofynion Ansawdd Datblygu o 137 metr sgwâr."*

Dylid nodi bod yr "uchafswm safonol" a nodwyd o 137medr sgwâr yn ymwneud ag anheddau 4-llofft, deulawr sy'n cartrefi 7 o bobl. O'r herwydd, mae'r ffigur hwn yn gamarweiniol o safbwynt amgylchiadau'r cais hwn.

O ran y safonau a nodir gan ddogfen Llywodraeth Cymru 'Mannau a Chartrefi Prydferth', ar gyfer byngalo 3 person, 2 ystafell wely, darperir ffigur arwynebedd mewnol gros o 58medr sgwâr. Gyda lwfans o 20% yng Ngheredigion – bydd hyn yn cynyddu i ~70medr sgwâr. Yn yr achos hwn, byddai'r byngalo yn darparu ar gyfer 4 o bobl (hy dwy ystafell wely ddwbl) ac felly byddai cynnydd bychan yn rhesymol. Felly, byddai'r ACLI yn cynnig y byddai uchafswm yn yr achos hwn i oddeutu 75medr sgwâr yn gymesur yn unol â'r safonau hyn.

Mae'r eiddo arfaethedig felly ~ 280% yn fwy na'r hyn y tybir ei fod yn gymesur gan yr ACLI.

I grynhoi, tra bod y fenter yn gadarn yn ariannol, mae'r Prawf Ariannol yn methu oherwydd maint yr annedd nad yw'n gymesur â'r fenter.

## **Prawf Anheddau Eraill**

O ran y Prawf Anheddau Eraill, mae TAN 6 yn nodi ym mharagraff 4.11 bod:

*"Rhaid darparu tystiolaeth i ddangos nad oes unrhyw annedd/anheddau neu adeiladau eraill y gellir eu haddasu i fodloni'r angen. Os oes annedd/anheddau ar y fenter yn barod bydd angen dangos pam na ellir defnyddio'r rhain i ddiwallu anghenion y fenter ar gyfer gweithiwr preswyl, a pham na ellir aildrefnu trefniadau llafur neu breswyl er mwyn sicrhau bod y llety presennol yn diwallu anghenion y fenter heb fod angen annedd arall."*



*Mewn achosion lle mae'r awdurdod cynllunio yn arbennig o bryderus am gamddefnyddio posibl, gallai fod yn fuddiol ymchwilio i hanes y fenter er mwyn sefydlu'r patrwm diweddar o ddefnydd tir ac adeiladau ac a werthwyd unrhyw anheddau neu adeiladau addas i'w trosi'n anheddau yn ddiweddar, er enghraifft. Gallai gwerthiant felly fod yn dystiolaeth o ddiffyg angen."*

O ran ad-drefnu trefniadau preswyl yn Gobaith, derbynnir bod rhieni'r ymgeisydd yn cadw'r hawl i aros yn yr annedd ar ôl ymdeol. Derbynnir hefyd nad oes adeiladau addas yn Gobaith i'w trosi.

Fodd bynnag, mae'r ACLI o'r farn nad yw'r cais i ddiystyru unrhyw ehangu yn Gobaith wedi'i brofi'n foddhaol. Mae para 6.18 o'r Arfarniad Menter Wledig yn nodi: "Yn amlwg y sefyllfa ddefnyddol fyddai adeiladu ail annedd yn Gobaith ac ehangu yma, ond yn anffodus mae maint y safle yn Gobaith yn rhy fach a chyfyng." Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion pellach ar wahân i'r bwriad a nodwyd i barhau i gadw ceffylau yn rhan ddeheuol y safle. Mae'n ymddangos bod digon o dir i'r dwyrain a'r de-ddwyrain o'r iard bresennol i hwyluso ehangu'r busnes ar ei safle presennol.

Darparwyd rhestr o 10 eiddo yn yr ardal leol a gafodd eu marchnata tua mis Mai 2023 gyda phob un wedi'i ddiystyru am resymau yn ymwneud â lleoliad, fforddiadwyedd a gofynion iard storio (neu ddiffyg hynny). Er bod y cyfyngiadau safle-benodol hyn yn cael eu cydnabod, mae'r prif wrthwynebiad yn parhau, gan nad ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â menter wledig gymhwysol.

### **Sied Arfaethedig**

Mae Polisi S01 yn nodi y dylid darparu'r mathau hyn o ddatblygiad ac eithrio tai, ar safleoedd a ddyrannwyd fel y nodir yn Natganiadau'r Grŵp Aneiddiadau ac a ddangosir ar y Map Argyrmyhellion, ac ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu, dylai ceisiadau gael eu hystyried yn unol â pholisïau cynllunio eraill.

Ystyrir bod safle'r cais wedi'i leoli o fewn 'lleoliad arall' felly mae polisi S04 yn berthnasol.

Mae maen prawf 3 o S04 yn ystyried datblygiad economaidd fel a ganlyn:

*Yn achos datblygu economaidd:*

*a. fe'i cynigir ar safle sydd wedi ei neilltuo fel y nodir yn Natganiadau'r grwpiau Aneiddiadau ac ar y Map Cynigion; neu*

*(b) mae'n safle annisgwyl sydd heb ei neilltuo ac mae naill ai:*

*i. ar 'raddfa fach' ac yn diwallu angen lleol penodol; neu*

*ii. yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 o ran mentrau gwledig.*

Mae testun ategol S04 yn diffinio graddfa fach at ddibenion maen prawf 3 fel datblygiad cyflogaeth B2 neu B8 gyda arwynebedd llawr gros o lai na 1500 metr sgwâr. Yn seiliedig ar y paramedrau graddfa a gyflwynwyd, ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn bodloni maen prawf 3 o S04 ond mae maen prawf 4 o S04 yn glir, bod yn rhaid i geisiadau datblygu mewn 'lleoliadau eraill' fod yn unol â TAN6 ym mhob achos. Ni ddiffinnir B2 a B8 fel mentrau gwledig at ddibenion TAN6 ac o'r herwydd mae'r sied arfaethedig yn methu â bodloni maen prawf 4 o S04.

### **Casgliad**

I grynhoi:

- Nid yw'r busnes presennol yn cael ei ystyried yn fenter wledig gymwys at ddibenion TAN 6
- Mae'r datblygiad arfaethedig yn methu pob prawf TAN 6

### **Effaith ar y Gymraeg**

Mae Polisi DM01: 'Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg' yn ei gwneud yn ofynnol bod Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol (AECI) gael ei ddarparu mewn perthynas â datblygiadau tai o fewn Canolfannau Aneiddiadau a Gwasanaethau Cyswllt lle byddai'r ddarpariaeth yn datblygu ar gyfradd gyflymach na'r hyn y cyfeirir ato yn y Datganiad Grŵp Aneiddiadau perthnasol.

Mae'r safle datblygu arfaethedig o fewn 'Lleoliad Arall' ac o'r herwydd nid oes angen AECI mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

### **Dyluniad ac Effaith Weledol**

Mae Polisi DM06 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad roi sylw llawn a chyfrannu'n gadarnhaol i gyd-destun ei leoliad a'i amgylchoedd. Mae'n hyrwyddo dylunio arloesol tra'n ystyried natur unigryw lleol o ran ffurf, dyluniad a deunydd ac mae angen ystyried cydlyniant y ffurf adeiledig o ran graddfa, uchder a chyfran wrth gyfeirio at ffurfiau cynlluniau presennol. Mae Polisi DM17 yn nodi na ddylai datblygiad gael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd a chymeriad tirwedd, boed trwy

ymyrraeth weledol, lleoliad ansensitif, defnyddiau anghydnaws, methiant i gysoni neu wella tirlfurf, neu golli nodweddion a phatrymau traddodiadol pwysig.

Mae cyd-destun y safle datblygu yn wledig iawn, ar dir uwch, ac i raddau helaeth heb ei ddifetha gan ddatblygiad adeiledig, gan ddarparu golygfeydd pell ar draws sawl milltir o dir amaethyddol gyda datblygiadau gwasgaredig a phentrefi bach.

Mae datblygiadau adeiledig yn yr ardal yn bennaf amaethyddol, gyda ffermydd cyfagos Aberdulais, Pantyrodyn, a Phen-allt-gwin ymhellach i ffwrdd wedi'u nodweddu gan gyfadeladau sylweddol o natur amaethyddol.

Yn yr achos hwn, ac fel y manylir o ran egwyddor datblygu, nid yw'r gweithrediadau yn cael eu hystyried i fod yn rhai amaethyddol ac nid ydynt yn deillio o'u defnydd o'r tir. Am y rheswm hwn, yn bendant, byddai cymeriad defnydd y safle yn fwy diwydiannol nag amaethyddol, ac yn cyflwyno defnydd annodweddiadol i'r lleoliad hynod wledig ac amlwg hwn a fyddai'n cael effaith negyddol ar gymeriad uniongyrchol ac ehangach y dirwedd. Ym marn yr ACLI, ni fyddai'r datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei leoliad a'i amgylchoedd, ond yn hytrach, byddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar amwynderau gweledol yr ardal trwy gyflwyno defnydd dwys, nad yw'n amaethyddol mewn lleoliad gwledig amlwg iawn, gan wrthdaro â DM06 a DM17.

### **Amwynder Preswyl**

Mae Maen Prawf 7 o DM06 yn ceisio diogelu amwynder preswylwyr eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygfeydd.

Er gwaethaf y gwrthwynebiad mewn egwyddor ac ar sail dylunio a gweledol, mae'r safle'n ddigon pell oddi wrth ei gymdogion agosaf ym Mhenrhiwdulais a byddai'n annhebygol o arwain at niwed sylweddol i amwynder preswyl presennol o ganlyniad i sŵn.

### **Dwysedd**

Dangosir bod amwynder preswyl yr annedd wedi'i ffinio gan gyfuniad o glawdd gwrych a ffensys post a rheilen newydd, gan ddarparu cwrtil preswyl priodol. Byddai gweddill y tir i'r cefn yn parhau'n amaethyddol o ran ei gymeriad. Felly, ystyrir bod dwysedd y datblygiad yn briodol o fewn ei gyd-destun ac ni fyddai'n arwain at gynnydd o ran gweithgarwch domestig y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol ar gyfer un annedd.

### **Priffyrdd**

Nid yw'r Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi codi unrhyw wrthwynebiad yn seiliedig ar amodau sy'n ymwneud â diogelu'r cyfleusterau mynediad i gerbydau, parcio, a lle troi o fewn amserlen sy'n briodol i'r datblygiad. Byddai modd cyflawni hyn drwy amod cynllunio.

### **Ecoleg a draenio gwastraff**

Mae'r safle yn gorwedd o fewn talgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi. Mae Adroddiad Draenio wedi'i ddarparu sy'n dderbyniol i'r Ecolegydd Cynllunio sydd wedi penderfynu na fydd y cais, o'i ystyried ar ei ben ei hun, yn effeithio'n andwyol ar uniondeb unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Byddai'r Adroddiad Draenio a ddarperir yn rhan o'r cynlluniau cymeradwy pe bai caniatâd yn cael ei roi, fel yr argymhellir.

Mae Datganiad Seilwaith Gwyrdd wedi'i ddarparu yn unol â PCC i nodi, lliniaru a gwella Seilwaith Gwyrdd y safle yn derbyniol i'r Ecolegydd Cynllunio.

Argymhellir darparu Cynllun Trawsleoli Llwyni cyn cychwyn ar y datblygiad mewn perthynas â'r gwaith sydd ei angen i ddarparu'r ardaloedd gwelededd angenrheidiol ar flaen y safle.

Yn olaf, byddai amod yn cael ei osod i sicrhau fod goleuadau allanol yn briodol o safbwynt Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (RhGE).

### **Perygl Llifogydd a Gwaredu Dŵr Arwyneb**

Mae'r datblygiad yn fwy na 100 metr sgwâr ac felly byddai angen cymeradwyaeth SDCau cyn i'r gwaith ddechrau. Byddai hyn yn rhan o'r wybodaeth i'w drafod am unrhyw ganiatâd a chyswllt uniongyrchol â Chorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy Ceredigion (CDC).

### **ARGYMHELLIAD:**

#### **Gwrthod:**

1. Mae'r datblygiad arfaethedig yn methu â dangos cydymffurfiaeth â phrofion menter wledig sydd wedi'u cynnwys yn

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 ac felly ystyrir ei fod yn ddatblygiad preswyl na ellir ei gyfiawnhau mewn lleoliad anghynaliadwy, yn groes i ddarpariaethau Cymru'r Dyfodol: Cynllun Genedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), TAN 6, a Pholisïau CDLI S01 a S04.

2. Byddai datblygiad arfaethedig annedd a sied ddiwydiannol gysylltiedig yn cyflwyno defnydd dwys ac amhriodol i leoliad hynod wledig, amaethyddol, ac amlwg, gan arwain at niwed sylweddol i gymeriad tirwedd yr ardal gyfagos ac ehangach, gan wrthdaro â pholisïau CDLI DM06 a DM17.

**Cyfeirir y cais at y Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy gais y Cyngorydd Chris James am y rhesymau canlynol:**

*Cais o dan camau TAN 6 yw hwn lle mae pêr ifanc yn gobeithio gwneud cais i ddatblygu safle yn Brongest.*

*Mae yna nifer o ffactorau TAN6 sy'n medru cael eu dadlau yn yr achos hwn: lleoliad, addasrwydd y safle, cynladwyedd y datblygiad ac yn y blaen.*

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A230741
<b>Derbyniwyd / Received</b>	17-10-2023
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Erection of TAN 6 dwelling and associated shed and yard
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Land Adj. To Penrhiwdulais Brongest, Beulah, Newcastle Emlyn, SA38 9ET
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Daniel ac Elin Morris ac Adams-Lewis, Gobaith, Brongest, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9ER
<b>Asiant / Agent</b>	Mrs Gwennan Jenkins (JMS Planning and Development), Hafan Y Coed, Maeshyfyd, Lampeter, SA48 8AN

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to a parcel of agricultural land located within an open countryside location approximately 1km north-west of Brongest -- a Linked Settlement for the purposes of the LDP. The site affronts the County C1063 road and occupies a highly-visible position within the surrounding landscape with far-reaching views afforded to all directions.

The nearest dwelling of Penrhiwdulais sits ~130m north of the site, with Aberdulais Farm to its rear ~275m from the application site. To the west lies an agricultural building ~200m from the site, thereafter leading to Pantyrodyn Farm.

The site lies within the catchment area of the River Teifi SAC.

Planning history at the application site is limited to a single application:

- **A190429**: Full Planning -- Erection of a stable block -- Approved STC 05-09-2019

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks full planning permission for the erection of a rural enterprise dwelling, shed, and yard in association with the applicant's father's business 'Huw Morris Plant Hire' established in 2004 (to which the applicant is a partner) currently operating from an existing rural enterprise dwelling known as Gobaith, located ~2.5km south-east of the application site -- also stated to be the applicant's current residence. The application site is under the ownership of the applicants.

The rural enterprise dwelling of Gobaith was approved against officer recommendation in 2013 by the Development Control Committee (Ref: A120621) -- the recommendation being that the proposal was contrary to the principles of TAN 6 and relevant Unitary Development Plan (UDP) policies in force at the time, whereby the Officer's Report concludes: "...a contractors depot does not meet the test of locational necessity, it is not a land based activity, and is not appropriately sited in this rural location".

The proposed rural enterprise dwelling in this case proposes a bungalow providing 2No bedrooms, a lounge, kitchen / diner / living area, utility, and company office across a 209sq.m footprint. The dwelling would be finished in a mix of painted render, featured stonework, natural slate roof and PV panels, with doors, windows, fascias, soffits in aluminium or uPVC to match. The dwelling would benefit from a lawned rear amenity area bound by a combination of hedgebank and rail fencing.

The proposed shed would measure 12m x 18.5m footprint (~222sq.m), 3.8m to eaves, 5.5m to ridge, and be constructed of concrete panels, box profile sheeting, and fibre cement roof.

The development would require the translocation of the existing hedgerow to the front of the site to achieve the requisite visibility splays.

Foul drainage would discharge to a proposed foul wastewater treatment plant and thereafter to a drainage mound located within the ownership boundary. A Drainage Report accompanies the application.

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

These national and local policies are applicable in the determination of this application:

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (Edition 12, February 2024)
- TAN2 Planning and Affordable Housing (2006)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)
- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)
- TAN12 Design (2016)
- TAN18 Transport (2007)
- TAN20 Planning and the Welsh Language (2017)
- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- LU06 Housing Density
- DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM05 Sustainable Development and Planning Gain
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM11 Designing for Climate Change
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM19 Historic and Cultural Landscape
- DM20 Protection of Trees, Hedgerows and Woodlands
- Community and the Welsh Language SPG 2015
- Community and the Welsh Language SPG Help Sheet 2015
- CCC Parking Standards SPG 2015
- Built Environment and Design SPG 2015
- Nature Conservation SPG 2015
- Affordable Housing SPG 2014

## **OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

### **CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

### **EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

## WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## CONSULTATION RESPONSES

### Cyngor Cymuned Beulah Community Council:

*"The Community Council support this application for a young pair who work in the area and who wish to set up home in their area. They also comply with The County Council's policy and also that of the Senedd i.e.*

- *Promote the economy, supporting businesses and facilitate employment*
- *Safeguarding the Welsh language in the present and in the future.*

*Although this may be outside the Development Plan, Councillors have the right to consent to applications if this supports the rural economy."*

### Highways:

No objection STC

### Land Drainage:

No objection STC. SuDS Approval is required.

### Ecology:

No objection STC.

### Natural Resources Wales:

Agree with the conclusions of LPA's Appropriate Assessment (AA) that development is unlikely to have an adverse effect upon the integrity of the SAC.

### Dwr Cymru Welsh Water:

No response

***Five letters of support were received in respect of the proposed development.***

## CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

### Principle of Development

In accordance with national and local planning policies residential development is directed towards sustainable settlements and should be contained within existing settlement boundaries. The Strategy of the LDP is that over the plan period 51% of new housing development across the County will occur in the Urban Service Centres, 24% in the Rural Service Centres and 25% in other settlements and locations (including linked settlements).

The site sits beyond any defined settlement or group of dwelling and as such is considered as being located within an 'other location' for planning policy purposes. Policy S04 of the LDP seeks to control the proliferation of additional housing development within other location in accordance with national planning policy and guidance which direct development to the most sustainable settlements. Criterion 2a of S04 is repeated below.

*2. In the case of housing development:*

*a. General housing provision will only be permitted in the 'Linked Settlements'. All 'Other Locations' are inappropriate for housing development unless justified on the basis that it meets a demonstrated:*

*i. unmet affordable housing need in the locality and accords with Policy S05; or*

*ii. need for a rural enterprise dwelling in line with TAN 6.*

The application and associated TAN 6 appraisal seeks to justify the development as a new dwelling on an established rural enterprise where there is a functional need for a full time worker and the business case demonstrates that the employment is likely to remain financially sustainable. It should be clearly reiterated at this point that the proposed development site sits ~2.5km away from the existing site, and thus it cannot be argued that the proposed development would address any on-site functional need at the existing site. Regardless of whether there exists an on-site need, the proposed development would not address this need.

Furthermore, the Local Planning Authority's interpretation of the business' operations are unchanged from that of the original TAN 6 application (A120621), in that it is not a qualifying rural enterprise for the purposes of TAN 6. Information provided by the agent has stated that the applicant's takeover of the business from his father would expand operations to include agricultural contracting and confirms this not to have formed part of the business' operations previously.

For completeness however, the relevant criteria of TAN 6 shall be addressed in turn below with reference to the rural enterprise appraisal (REA) accompanying the application:

TAN 6, Paragraph 4.3.1 outlines when national policy considers it appropriate to grant planning permission for a new rural enterprise dwelling. A new dwelling on an established rural enterprise will only be supported provided the following criteria are met:

- 1. there is a clearly established existing functional need;*
- 2. the need relates to a full-time worker and does not relate to a part-time requirement;*
- 3. the enterprise concerned has been established for at least three years, profitable for at least one of them and both the enterprise and the business need for the job, is currently financially sound, and has a clear prospect of remaining so;*
- 4. the functional need could not be fulfilled by another dwelling or by converting an existing suitable building already on the land holding comprising the enterprise, or any other existing accommodation in the locality which is suitable and available for occupation by the worker concerned; and*
- 5. other normal planning requirements, for example siting and access, are satisfied.*

### **Functional Test**

In terms of a "Functional requirement", TAN6 indicates at para 4.8 that:

*"a functional test is necessary to establish whether it is essential, for the proper functioning of the enterprise, for one or more workers to be readily available at most times. It should relate to unexpected situations that might arise, for which workers are needed to be on hand outside of normal working hours for the particular enterprise. Such requirements might arise, for example, if workers are needed to be on hand night and day to deal with an emergency that would threaten the continued viability and existence of the enterprise without immediate attention. Where there are existing dwelling(s) on the enterprise then the need for additional workers to live on the site for the proper functioning of the enterprise must be demonstrated to be essential".*

The TAN 6 Rural Enterprise Dwelling guidance note confirms that: *"An essential functional need relates to a specific management activity or combination of activities which require the ready presence of a worker at most times if the proper functioning of an existing enterprise is not to be prejudiced and which cannot be achieved by any other practical means such as electronic surveillance".*

It goes on to state that *"It is a need determined by the character and management requirements of the enterprise, and not by any personal preferences or circumstances of any of the individual(s) involved".*

The REA states that the business is *"based on undertaking agricultural and land based activities which include fencing, shuttering, building sheds, plant hire and driving machinery...The company also undertake commercial drainage works, installation of sewerage treatment plants, ground works on local caravan parks, holiday homes and hotels and commercial businesses...They also install equine arenas and throughout the summer season they undertake baling and harvest contracting work on local farms and small holdings".*

It is stated that the business undertake work throughout Ceredigion, Pembrokeshire, and Carmarthenshire.

